Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2018 Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer – Crynodeb Gweithredol (Cymraeg)

## Cyflawni Rhan IV Deddf Amgylchedd 1995
## Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

Dyddiad (Medi, 2018)

| | |
|---|---|
| ***Swyddog awdurid lleol*** | Aileen Rahilly |
| ***Adran*** | Adran iechyd yr amgylchedd |
| ***Cyfeiriad*** | Civic Centre<br>Castle Street<br>Merthyr Tydfil CF47 8AN |
| ***Ffôn*** | 01685 725395 |
| ***E-bost*** | aileen.rahilly@merthyr.gov.uk |
| ***Rhif cyfeirnod yr adroddiad*** | MTCBC/AR/2018 |
| ***Dyddiad*** | 27/09/2018 |

# Crynodeb Gweithredol: Ansawdd aer y nein hardal

## Ansawdd Aer ym Merthyr Tudful

Prif ffynhonnell llygredd yr aer ym Merthyr Tudful yw traffig ffordd. Felly, mae CBSMT yn bryderus ynghylch $NO_2$. Mae rhwydwaith o diwbiau lledaenu yn gweithredu trwy'r ardal. Yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, cyrhaeddodd $NO_2$ ei lefel uchaf yn yr ardal yn 2013 ac mae wedi gostwng ers hynny. Mae'r gostyngiad hwn wedi lefelu allan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y mwyafrif o safleoedd ym Merthyr Tudful, grynodiadau o $NO_2$ sydd oddi fewn i'r amcan ansawdd aer cymedrig.

Mae nifer bychan o safleoedd (3) yn torri'r amcan ansawdd aer ac o achos hyn, mae ARhAA mewn grym ar Heol Twynyrodyn, o gylchfan Tesco i'r groesffordd â Chilfach Cynon a Maes Arfryn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar <https://uk-air.defra.gov.uk/aqma/local-authorities?la_id=402> and www.merthyr.gov.uk <http://www.merthyr.gov.uk>.
Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar dri dull gwahanol o wella ansawdd yr aer oddi fewn i'r ARhAA, mae CBSMT wedi cyflwyno cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru ac mae wedi cael ei gymeradwyo.

Yn unol â'r cynllun gweithredu, yn Hydref 2018, bydd Gorchmynion Rheoliadau Traffig yn cael eu cyflwyno ac yn gynnar yn 2019, bydd llif y traffig yn cael ei wrthdroi ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Heol yr Eglwys. Bydd hyn yn darparu llwybrau amgen, i ffwrdd o Tesco a neuadd y Dref ac yna Heol Twynyrodyn.

Mae CBSMT hefyd yn ystyried effaith ansawdd yr aer ar ddatblygiadau newydd a lle y mae hynny'n angenrheidiol, mae amodau cynllunio yn cael eu defnyddio er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi teithio gweithredol a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau dibyniaeth ar geir.

## Camau i Wella Ansawdd Aer

Yn 2017, cafodd yr ARhAA ar Heol Twynyrodyn ei gyhoeddi'n ffurfiol. Yn 2018, cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos ar gynllun gweithredu drafft er mwyn ymdrin â'r ARhAA ar Heol Trwynyrodyn. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar 3 opsiwn er

mwyn lleihau'r traffig ar Heol Twynyrodyn. Mynegodd y mwyafrif o ymatebwyr (94%) eu dymuniad i wrthdroi llif y traffig ar hyd Stryd Fawr Pontmorlais a Heol yr Eglwys. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun gweithredu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Defra. Mae wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Y cam nesaf yw y bydd Adran y Priffyrdd a'r Adran Beiriannyddol yn cyhoeddi Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. Yn gynnar yn 2019, bydd gwaith i ailgyfeirio'r traffig, yn unol â'r cynllun gweithredu yn dechrau. Rhagdybir y bydd gwelliannau yn yr ansawdd aer yn sgil hyn.

## Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Y flaenoriaeth ar gyfer 2018 a 2019 fydd gweithredu'r cynllun gweithredu a gymeradwywyd. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn caniatáu i'r ARhAA gael ei ddiddymu erbyn 2021. Os na fydd yn llwyddiannus, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei ystyried mewn cynlluniau gweithredu a fydd yn cael eu diweddaru.

Bydd monitro yn cael ei ymestyn i gynnwys rhai ardaloedd sydd wedi cael eu dynodi gan Arolwg Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru, lle y gall traffig trwm hefyd effeithio ansawdd yr aer. Yn ychwanegol i hyn, mae data'r tiwbiau lledaenu ar gyfer ambell fis o 6/7 Maes Ladysmith yn dynodi y byddai monitro ychwanegol yn Nhroedyrhiw yn fanteisiol er mwyn cael darlun llawnach o ansawdd yr aer ledled y fwrdeistref sirol. Bydd hyn drwy diwbiau lledaenu ychwanegol.

## Sut i Gyfranogi

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch llygredd yr aer, gan gynnwys adroddiadau ar ansawdd yr aer ar gael yn www.merthyr.gov.uk. Gellir gofyn cwestiynau penodol drwy e-bostio PublicHealth@merthyr.gov.uk neu ffonio 01685 725000.